# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 09.10.24 - 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** David Griffiths - Cadeirydd (DG), Huw Davies (HD), Jenny Warne (JW), Keith Carroll (KC), Jane Lawrence (JL), Nicola Roberts (NR), Megan Griffiths (MG), Louise Hughes - Cynghorydd Sirol (LH), Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Geraint Edwards, Ian Williams. Dim ymddiheiriad wedi ei dderbyn gan Geraint Micah.

2. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2.1 **Datgan Diddordeb**: **Dim.**

**2.2 Cyfarfod gyda Chris Lawrence, Ymatebwyr Cyntaf (CL)**

Roedd CL wedi cael ei wahodd i'r cyfarfod gan fod peth ansicrwydd o hyd ynghylch y diffibrilwyr a'r hyn a oedd yn ofynnol gan y Cyngor Cymuned. Dywedodd CL fod ein holl ddiffibrilwyr ar y 'gylched' ac yn cael eu gwirio bob chwech wythnos ganddo ef. Mae'r 'gylched' yn cael ei ddiweddaru wedyn gyda'r dyddiad â'r amser y cawsant eu gwirio, fel bod y Gwasanaeth Ambiwlans yn gwybod eu bod yn gweithio ac ati. Yr unig gyfrifoldeb sydd gan y Cyngor Cymuned yw cyflenwi padiau, batris ac ati pan fydd eu hangen. Cododd DG y mater nad ydym yn cadw sieciau wedi'u llofnodi, ac er gwaethaf cael cyfarfodydd misol y rhan fwyaf o'r flwyddyn, os defnyddir diffibriliwr yn union ar ôl cyfarfod a bod angen padiau newydd, ni all hynny gael ei wneud tan y cyfarfod nesaf - system sydd ddim yn mynd i fod yn gweithio yn effeithiol.

Felly cyflwynwyd gynnig i CL - ei fod yn parhau i hysbysu'r Cyngor Cymuned o'r padiau sydd wedi dyddio/defnyddio ac ati, ond fod ganddo awdurdod i brynu rhai newydd a'u ffitio, ac yna anfon anfoneb i'r Cyngor Cymuned.

Eglurodd JJ byddai'n rhaid i'w hanfoneb fod am y cyfanswm a pheidio â chael ei dadansoddi i ddangos TAW gan nad ydynt wedi cofrestri ar gyfer TAW, ac felly ni all gynnwys TAW ar unrhyw anfoneb. Cytunodd aelodau'r Cyngor Cymuned i gyd, gan mae eitemau bach fydd yn cael eu prynnu, byddent yn barod i ildio'r hawl i adennill yr elfen TAW.

Roedd CL yn hapus i gyd-weithio ar y sail hon gan bod hyn yn golygu y gellid osgoi oedi hir ac yn golygu bod y diffibrilwyr mewn cyflwr gweithio bob amser. Cadarnhaodd y bydd yn trefnu padiau newydd ar gyfer y diffibriliwr yn Rhoslefain ac yn hysbysu JJ pan y byddent wedi eu prynu a'u gosod.

**Penderfyniad** - JJ i gadarnhau'n ysgrifenedig yr hyn a gytunwyd.

Dywedodd CL hefyd fod yr Ymatebwyr Cyntaf wedi bod yn codi arian, ac yn edrych i wneud cyfraniad i'r Cyngor Cymuned tuag at gynnal a chadw y Diffibrilwyr.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**: cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25.09.24:
   Nododd HD fod geiriau wedi eu gadael allan o bwynt 4(d). Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir wedi gwneud y cywiriad i ddarllen: "Gan **nad oedd** adroddiad ROSPA wedi nodi bod hyn yn fater brys"......
   **Cynnig:** HD **Eiliwyd:** KC **Arwyddwyd:** DG.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol – 25.09.24:**

   a) **Coeden Onnen yn y Cae Chwarae** – Cadarnhaodd JJ bod chwech cwmni wedi cael cynnig rhoi dyfynbris i wneud y gwaith. Dim ond un ateb a dderbynwyd – gan "Dyfi Tree Care". Dywedodd HD ei fod wedi cyfarfod â James (Dyfi Tree Care) Dydd Gwener 04/10/24 i edrych ar y goeden a James wedi argymell tynnu'r iorwg, a cael gwared ar yr holl ganghennau dail, a chynnal strwythur sy'n llawer llai o berygl a bydd yn rhoi cyfle i'r goeden wella, a bod canghennau marw yn cael eu tynnu yn ôl i'r coesyn. Byddai'n cysylltu â Rhydian ynglŷn â'r pwyntiau hollt pe bai'r dyfynbris yn cael ei dderbyn. Dyfynbris o £1,400.00 yn cynnwys yr holl waith uchod ynghyd â symud deunydd gwastraff o'r safle. Dyfi Tree Care heb gofrestru ar gyfer TAW.
   **Penderfyniad** - Wedi peth trafodaeth cytunwyd yn unfrydol derbyn y dyfynbris a symud ymlaen gyda'r gwaith.

   b) **Mainc yn Rhoslefain –** dywedodd KC nad oedd wedi trwsio'r fainc oedd wedi torri yn Rhoslefain eto.

c) **Llwybr Cyhoeddus, Sunbeach –** Cadarnhaoddd JJ bod llythyr gyda'r dogfennau perthnasol wedi ei hanfon at Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd. Copi o'r llythyr a'r dogfennau i'w hanfon at John Cawley, Pennaeth Cynllunio, Parc Cenedlaethol Eryri, ond sydd newydd dderbyn swydd Prif Weithredwr Y Parc.

d) **Gwefan y Cyngor Cymuned** – Cadarnhaodd JJ ei bod wedi mynd drwy'r manylion gyda **H G Web Designs** a bod hwythau wedi cadarnhau:
- Mae'r wefan yn gweithio ar "prynu un a cael un am ddim"o ran tudalennau felly os ydych chi'n prynu 5 tudalen yn Saesneg, yna rydych chi'n cael 5 tudalen yn Gymraeg am ddim
- Gellir symud popeth ar ein gwefan bresennol ar draws i gadw cofnodion hanesyddol
- Nid oes angen unrhyw waith ar ran y Clerc, ac eithrio i anfon y dogfennau ar draws sydd angen cael eu rhoi ar y wefan bob mis
- Tri parth newydd wedi eu cynnig – penderfynodd y cynghorwyr fynd gyda **cyngorllangelynnincouncil.co.uk**

**Penderfyniad** - JJ i gysylltu a **H G Web Designs** a symud ymlaen gyda'r wefan newydd.

e) **Wal Derfyn rhwng Llwyngwril a Friog** - darllenodd JJ e-bost Steffan Jones gyda diweddariad o'r safle.
**Penderfyniad** – JJ i anfon e-bost yn ol at Steffan Jones i ofyn am ddiweddariad pellach ar gyfer y cyfarfod nesaf ym Mis Tachwedd.

f) **Heddlu Gogledd Cymru** – Cadarnhaodd JJ fod Heddlu Gogledd Cymru wedi cydnabod yr e-bost ynglŷn â mater gor-yrru yn Llwyngwril, yn cadarnhau ei bod yn edrych i weld os yw'r lleoliad yn addas ar gyfer y tîm ymgysylltu i dalu ymweliad.

g) **Cilfan Pont y Cletwr** – Er i lythyr gael ei anfon at Gyngor Gwynedd ar 27/09/24, dim cydnabyddiaeth nag ymateb wedi ei dderbyn hyd yma.
**Penderfyniad** - JJ i anfon llythyr eto i gael ymateb.

5. **<u>Gohebiaeth wedi eu derbyn:</u>**

a) **Bocsys Ailgylchu TeraSycl** – Cadarnhaodd JJ fod e-bost wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn cynghori nid oedd unrhyw gyfleusterau yng Nghanolfan Ailgylchu Dolgellau, ac nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw le yn yr ardal a fyddai'n cyflwyno'r cynllun.
**Penderfyniad** - JJ i hysbysu Pat Griffiths o'r ymateb.

b) **E-bost gan Mr John Hackney** – Cadarnhaodd JJ fod e-bost gyda diweddariad wedi ei anfon at Mr Hackney yn dilyn y cyfarfod diwethaf, a'i fod wedi cydnabod hynny.
**Penderfyniad** - JJ i ysgrifennu ato eto i'w hysbysu fod y Cyngor Cymuned yn gofyn i "Dyfi Tree Care" wneud y gwaith angenrheidiol.

c) **E-bost gan Mei Black** – Cadarnhaodd JJ ei bod wedi anfon e-bost at Mei Black ynglyn a'r Goeden Onnen (sydd ar ei dir ef ger y Cae Chwarae yn Llwyngwril) a oedd wedi dod i sylw'r Arolygydd y Parc Cenedlaethol Eryri.
Mei Black wedi cadarnhau y bydd yn trefnu i gael y Goeden Onnen wedi ei thorri.

6. <u>Materion Cynllunio</u>: (Derbyniwyd dau gais cynllunio ar ddiwrnod y cyfarfod - felly cafodd y ddau eu cynnwys ar yr Agenda, er mwyn gallu ymateb i'r Parc o fewn yr amserlen o 21 diwrnod).
- **NP5/69/354F** – Maes-y-Crynwyr, Llwyngwril (Cais ôl-weithredol ar gyfer gosod ffliw ar adeilad allanol)
- **NP5/69/14F** - Hafod Wen, Rhoslefain (Dymchwel lolfa haul a chodi estyniad).

**Adolygwyd y dogfennau a chadarnhaodd y Cynghorwyr nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r naill gais na'r llall.**

7. <u>Adroddiad Ariannol:</u>

a) **Adroddiad Ariannol Mis Medi** – Cytunwyd yr adroddiad fel cyfrif cywir a chymeradwywyd.
**Cynnig:** HD **Eilydd:** JW **Arwyddwyd:** DG.

b) **Taliadau - C**yflog a chosta'r Clerc, a gwasanaeth "Japanese Knotweed Removals Wales".

8. <u>Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:</u>

Cadarnhaodd MG ei bod wedi mynychu cyfarfod "zoom" fel cynrychiolydd y cyngor gyda Un Llais Cymru.
'Roedd hi wedi cynhyrchu nodiadau ar y pwyntiau a drafodwyd ac mae'r rhain wedi eu hatodi gyda'r cofnodion.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:**

Dywedodd LH ei bod wedi mynychu cyfarfod llawn ar 03/10/24 ond dim byd i adrodd yn ol i'r Cyngor Cymuned. Mae'r cyfarfod nesaf yn gyfarfod "arbennig" ynghylch pleidlais sengl drosglwyddadwy.

Cadarnhaodd fod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cael cyfarfod i ddewis Prif Swyddog Gweithredol newydd. Roedd tri ymgeisydd, dau allanol ac un mewnol. Jonathan Cawley (pennaeth presennol Cynllunio) oedd yr ymgeisydd llwyddiannus. Mae i fod i gymryd drosodd o fewn y mis nesaf.

Cadarnhaodd LH hefyd fod cyfarfod (aml-randdeiliaid) arall ar **28/10/24** ynglyn ag Ysbyty Tywyn.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

- "Wreath" at Sul y Cofio – DG i gysylltu â Darren Hesleton i drefnu.
- Cadarnhaodd KC fod y gwaith o glirio y "Japanese Knotweed" ar gyfer eleni wedi'i gwblhau.
- Dywedodd HD ei fod ef a GE wedi clirio'r ardal wedi'i ffensio yn y Cae Chwarae.
  'Roedd GM wedi cael gwared a'r sbwriel ac y gordyfiant.
  Cododd HD y mater mai dim ond y ddau ohonyn nhw oedd wedi troi i fynny i wneud y gwaith – a doedd hyn ddim yn dderbyniol, ac bod angen i aelodau eraill y Cyngor Cymuned fod yn fwy rhagweithiol.
- Dywedodd DG ei fod wedi derbyn cwynion pellach am y gilfan ger stad Gwastadgoed, gyda cheir o hyd yn parcio yno yn rheolaidd.
  **Penderfyniad** - JJ i gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru eto.
- Dywedodd DG ei fod wedi siarad ag Mrs Yvonne Roberts, Fferm Tydfarch, a'i bod yn garedig iawn wedi gaddo rhoi Coeden Nadolig ar gyfer pentref Llwyngwril eleni, ond roedd yn rhaid i'r aelodau drefnu casglu y goeden. Felly, bydd y goeden ffrâm metel mae KC eisoes wedi gwneud yn gallu mynd i Roslefain eleni.
- Gofynnodd DG i KC a HD os oeddent yn fodlon iddo bostio diweddariad ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned, am y gwaith oedd wedi cael ei wneud yn y pentref hefo'r "Japanese Knotweed" a ceg yr Afon Gwril. Cytunodd y ddai i'r wybodaeth gael eu cyflwyno ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned.
- Hysbysebodd JJ fod Mrs Hilary Harrison wedi cysylltu, yn gofyn am fanylion cyfrif Banc y Cyngor Cymuned, gan fod yr Eglwys yn edrych i wneud cyfraniad i'r gronfa Diffibriliwr.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 13.11.2024 - 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwril**

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd** ......D.G...... **Dyddiad** ....13/11/24....